

# Gwasanaethau Cymunedol

## Taliadau Uniongyrchol

### i Ofalwyr



Ebrill  
2023

## TALIADAU UNIONGYRCHOL I OFALWYR – TAFLEN WYBODAETH

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

YN YMNEUD Â	Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr
RHIF CYFEIRNOD	LL03
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Mark Cooper / Naomi Harper
DYDDIAD GWEITHREDU	Ebrill 2023
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Ebrill 2025

## Cynnwys

TALIADAU UNIONGYRCHOL I OFALWYR .....	4
BETH YW TALIAD UNIONGYRCHOL? .....	4
Cyflogi Cynorthwywyr Personol .....	5
Dyma enghreifftiau eraill o'r hyn y gallai Taliadau Uniongyrchol i Ofalwr ei gynnwys .....	6
PWY ALL GAEL TALIAD UNIONGYRCHOL? .....	6
SUT ALLAF GAEL TALIAD UNIONGYRCHOL? .....	7
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL .....	8
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU .....	9

## TALIADAU UNIONGYRCHOL I OFALWYR

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a **gofalwyr** sydd angen cefnogaeth. Rhennir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i 11 adran. Mae gan bob adran God Ymarfer. Mae pob Cod Ymarfer yn amlinellu beth ddylai ac na ddylai pob awdurdod lleol ei wneud o ran eu dyletswydd i gefnogi lles Dinasyddion Cymru.

Mae mwy a mwy o bobl yn dewis derbyn Taliad Uniongyrchol, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dweud wrthym ni fod y trefniadau hyblyg maent wedi eu trefnu wedi newid eu bywydau er gwell.

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth yn ymwneud yn benodol â gofalwyr di-dâl a darparu cefnogaeth drwy Taliad Uniongyrchol iddynt, drwy eu hawl eu hunain.

## BETH YW TALIAD UNIONGYRCHOL?

Taliad Uniongyrchol yw arian gan y Cyngor i gynorthwyo unigolion a gofalwyr di-dâl i drefnu a thalu am gefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd a chyflawni canlyniadau lles y cytunwyd arnynt.

Os yw unigolyn yn gymwys i dderbyn cymorth i ddiwallu ei anghenion a aseswyd, gall Cyngor Sir y Fflint roi arian i'r unigolyn yn lle gwasanaeth.

Gellir defnyddio Taliad Uniongyrchol i drefnu cefnogaeth sy'n iawn i'r unigolyn a'i ffordd o fyw.

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn golygu y gall unigolyn gael mwy o ddewis dros y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario, mwy o reolaeth dros y gefnogaeth y mae'n ei dewis, ac ystod llawer ehangach o wasanaethau a chefnogaeth i ddewis ohonynt. Golyga hyn y gall gofalwyr di-dâl feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy, a gwneud trefniadau sy'n addas ar gyfer eu dewisiadau, blaenoriaethau a ffordd o fyw.

Peidiwch â phoeni, mae digonedd o gefnogaeth ar gael ar bob cam i gynorthwyo pobl i gael y canlyniadau gorau posibl o'u taliadau uniongyrchol.

Mae pobl yn Sir y Fflint yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol i drefnu:

- Cefnogaeth gyda bywyd beunyddiol a gweithgareddau i'w galluogi i fyw bywyd llawn ac egnïol o'u dewis hwy
- Cefnogaeth i fynd allan
- Cefnogaeth gyda gofal personol
- Cefnogaeth i greu datrysiadau mwy hyblyg a chreadigol sy'n cynorthwyo i gyflawni amcanion personol
- Datrysiadau sy'n cynnal annibyniaeth
- Gofal Seibiant a Seibiannau Byrion a gwasanaethau eraill sy'n cynorthwyo gofalwyr di-dâl

- Cyfuno taliadau uniongyrchol gyda phobl eraill i wneud pethau gyda'i gilydd
- Cefnogi mynediad at addysg, neu waith

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn benderfyniad personol a fydd, gobeithio, yn galluogi pobl i gael ansawdd bywyd gwell. Mae'n bwysig canolbwytio ar yr hyn y mae'r unigolyn eisiau ei gyflawni. I lawer o bobl mewn rôl ofalu, bydd hyn yn golygu "*gallu parhau i ofalu am anwylyd*". Mae hyn yn arwain at sgwrs ynglŷn â beth fydd o gymorth? sut beth fyddai'r gefnogaeth? beth fyddai'n gwneud y rôl ofalu'n gynaliadwy? ac ati. Mae atebion y cwestiynau hyn yn ffurfio darlun mwy clir ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yng nghyd-destun ei fywyd a'i deulu. Mae'r canlyniadau ar gyfer pob person yn debygol o fod yn bersonol ac unigryw iawn i'r unigolyn a'i amgylchiadau penodol.

Mae'n bwysig nodi na fydd gwahanol drefniadau Taliad Uniongyrchol yr un fath â'i gilydd. Mae cwmpas yr hyn y gellir ei gyflawni gyda Thaliad Uniongyrchol yn ddi-ben-draw, fodd bynnag ceir isod enghreifftiau o sut y gellid defnyddio Taliadau Uniongyrchol.

Enghreifftiau:

- Cymorth i ofalwyr yn y cartref ac o'i gwmpas
- Amser i ymgymryd â diddordebau, hobiau neu addysg
- Offer neu dechnoleg sy'n cynorthwyo gofalwyr i gael egwyl
- Gweithgareddau therapiwtig
- Cynorthwyo gofalwyr i ddod at ei gilydd i ddatblygu grwpiau cefnogi, ac ati
- Mae'r posibiliadau yn ddiddiwedd!

### Cyflogi Cynorthwywyr Personol

Mae rhai pobl angen cymorth corfforol i'w cynorthwyo i ymdopi o ddydd i ddydd. Yn aml, mae pobl sydd yn y sefyllfa hon yn dewis cyflogi rhywun i'w cynorthwyo. Gelwir y math hwn o weithiwr yn Gynorthwydd Personol.

Manteision cyflogi Cynorthwydd Personol yw gallu cyflogi rhywun o'ch dewis chi, rhywun y gellwch ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda hwy a dod i'w hadnabod. Gall buddsoddi mewn Cynorthwydd Personol fod â manteision i'r naill a'r llall, a gall fod yn drefniant gwerthfawr iawn.

Gall Cynorthwydd Personol fod yn rhywun y mae'r unigolyn yn ei adnabod eisoes; fodd bynnag, darperir cefnogaeth hefyd i gynorthwyo pobl i reciwtio Cynorthwydd Personol o'u dewis. Weithiau mae pobl yn dewis cyflogi ffrindiau neu aelodau o'u teulu i weithredu fel eu Cynorthwydd Personol.

Mae hefyd yn bosibl cyflogi perthynas agos sy'n byw ar yr un aelwyd â'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol, ar ôl ystyried barn y derbynnydd, fod yn fodlon mai cyflogi perthynas agos sy'n byw ar yr un aelwyd yw'r ffordd orau o hybu a chyflawni ei ganlyniadau personol.

Weithiau gall cyflogi Cynorthwydd Personol deimlo fel tasg anodd iawn i ddechrau, ond mae arweiniad a chefnogaeth ar gael ar bob cam i sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol a'r canlyniadau gorau o'u cyllid.

Dyma enghreifftiau eraill o'r hyn y gallai Taliadau Uniongyrchol i Ofalwr ei gynnwys

- Talu am ffi aelodaeth clwb megis ffotograffiaeth er mwyn iddynt allu eich cynorthwyo i fynd yno.
- Prynu tocyn tymor i ffrind sy'n mynd â chi i gemau pêl-droed bob wythnos, yn hytrach na thalu i gynorthwydd personol wneud hynny.
- Ffyrrd eraill y dewiswch i wobrwyo rhywun am eu cymorth anffurfiol.
- Cefnogaeth ar gyfer yr unigolyn yr ydych yn gofalu amdano i'ch galluogi chi i wneud rhywbeth sydd o werth i chi. Gallai hyn gynnwys mynchyu cwrs coleg, clwb, neu weithgaredd arall o ddiddordeb.
- Weithiau, mae gallu mynd â'r ci am dro, neu fynd i gael torri gwalt yn rhoi'r seibiant sydd ei angen.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â beth yw Taliad Uniongyrchol, a sut y gellir ei ddefnyddio, yma:

<https://www.siryfflin.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Direct-Payments/What-are-Direct-Payments.aspx>

## PWY ALL GAEL TALIAD UNIONGYRCHOL?

Gall bron iawn bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gael Taliad Uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr di-dâl (gweler ein taflen am gymhwystera ar gyfer gofal a chymorth, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol).

I gael Taliad Uniongyrchol, mae'n rhaid i unigolyn fod yn gallu dangos ei fod yn gallu rheoli'r arian yn y ffordd gywir. Gall wneud hyn ar ei ben ei hun neu gyda chymorth.

## SUT ALLAF GAELELIAD UNIONGYRCHOL?

I gael Taliad Uniongyrchol, mae'n rhaid cynnal Asesiad o Anghenion y Gofalwr i ddechrau, i ganfod y canlyniadau mae'r Gofalwr yn dymuno eu cyflawni. Yn dilyn yr asesiad hwn, os mai Taliad Uniongyrchol yw'r ffordd a ddewisir i gyflawni'r canlyniadau a ganfuwyd, bydd Tîm Taliadau Uniongyrchol ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru yn arwain gweddill y broses ac yn rhoi cefnogaeth gyda chychwyn arni.

I gael Asesiad o Anghenion y Gofalwr, cysylltwch â:

### **Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru**

28-44 Stryd Newydd,  
Yr Wyddgrug,  
Sir y Fflint, CH7 1NZ                  01352 752525  
[enquiries@newcis.org.uk](mailto:enquiries@newcis.org.uk)

## CYSLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae gennym dîm Taliadau Uniongyrchol profiadol yn y Cyngor sydd yno i'ch cefnogi gydag unrhyw ymholiadau neu wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Byddwn yn ymdrechu i roi cymaint o gymorth a sicrwydd â phosibl i chi, nes eich bod yn teimlo'n hyderus i reoli trefniadau eich hun. Ond cofiwch, os ydych angen cymorth neu gyngor o dro i dro, mae croeso i chi ein ffonio.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol  
01352 701100  
[dp.support@flintshire.gov.uk](mailto:dp.support@flintshire.gov.uk)

Am fwy o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol yn Sir y Fflint, ewch i:

<https://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Direct-Payments/Home.aspx>

Yn ogystal, mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gellwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

<b>Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint</b>	
08444 772020	<a href="http://www.flintshirecab.org.uk/cy/">www.flintshirecab.org.uk/cy/</a>
<b>Gofal a Thrwsio Sir y Fflint</b>	
Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.	
<b>Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru</b>	
08450 549969	<a href="http://www.acnew.org.uk/?lang=cy">www.acnew.org.uk/?lang=cy</a>
<b>Llinell Gymorth Mencap Cymru</b>	
0808 808 1111	<a href="http://www.wales.mencap.org.uk/cy">www.wales.mencap.org.uk/cy</a>
<b>MIND</b>	
01352 757637	<a href="http://www.newmind.org.uk">www.newmind.org.uk</a>
<b>Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)</b>	
01352 752525	<a href="http://www.carers.org/local/wales/flintshire">www.carers.org/local/wales/flintshire</a>

## Fforwm Anabledd Sir y Fflint

01352 755546

### Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ

03000 858 858

[SSDUTY@flintshire.gov.uk](mailto:SSDUTY@flintshire.gov.uk)

<https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx>

## CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion yr ydym yn ymwybodol y gallai fod yna adegau pan fo angen i chi wneud cwyn. Gellir gwneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu gellwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion

Gwasanaethau Cymdeithasol

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint, CH7 6NN                  01352 702623

Mae taflen ‘Eich hawl i ganmol a chwyno’ sy’n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein yma:

<https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx>

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein yma:

[www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

**Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras ar gais drwy ffonio 03000 858 858.**